Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Medi 13, 2016 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Janet Edwards, Eirlys Roberts , Llinos Williams, Elfed ap Gomer, a Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams (Is-gadeirydd) a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 12, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 12, 2016

Eitem 4. Eitem 5, Eitem 10.c. Derbyniodd Peredur Jenkins lythyr (12/7/2016) oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Llywodraeth Cymru. Mae yn rhoi gwybod maent am ystyried rhoi llwybr ar ochr ffordd A470.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymholiadau ar ddiweddaraf y cynllun.

Eitem 4. Eitem 8.ch. Lleoliad y biniau yn y gymuned: Ffordd Hirgwn, Bontddu; 2 ar ffordd Hafod, Bontddu; ffordd Taicynhaeaf; ffordd Moel Ispri; Bontddu; ffordd Cwm Mynach; 2 ar ffordd Cae Gwernog, Llanelltyd (un ger Pant Llwyfog).

Llythyr (27/8/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybod os Cyngor Gwynedd yw ein penderfyniad i wasanaethu ein biniau halen. Rhoddwyd gwybod iddynt i Cyngor Gwynedd wasanaethu ein biniau halen. Rhoddwyd gwybod hefyd bod y biniau halen yn llawn.

Llythyr ateb (1/8/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod byddent yn cysylltu â ni ym mis Medi i roi manylion y gwasanaeth.

Eitem 10.a. Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd i gasglu'r carpet.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (18/7/2016) taliad am £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i osod beddfaen ar y diweddar Hilda Jean Collet a Ernest Arthur Collet.

b. Bil (3/8/2016) am £480 oddi wrth Mr E.W. Davies am dorri gwair y fynwent diwedd Gorffennaf.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2016: £7,700.07.

ch. Bil (20 Awst 2016) am £111.93 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 28 Chwefror 2016 - 16 Awst 2016. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £112.07).

d. Llythyr (Awst 4, 2016) oddi wrth Welsh Council Audits, BDO, ein harchwiliwr allanol, gyda sylwadau ar ein hadroddiad. Maent eisiau mwy o wybodaeth. Roeddynt eisiau:

1. Copi o'r Cofnodion oedd yn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol,
2. Gwybodaeth am ein hasedau sefydlog (cafwyd cymorth gan ein cwmni yswiriant ar y mater),
3. Copi o'n gyllideb sy'n cefnogi ein cais am braesept 2015/16. Ni chafodd cyllideb ei pharatoi ond rhoddwyd gwybod iddynt fod y Cyngor yn wynebu costau ychwanegol oherwydd toriadau Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd y wybodaeth iddynt ar Awst 22 ac Awst 29.

Roedd rhaid gwneud ymholiadau gyda AON, ein cwmni yswiriant, i gael gwybodaeth ar ein hasedau sefydlog oherwydd nid oeddynt yn cael eu dangos yn glir ar y polisi. Newidiwyd disgrifiadau'r eitemau yn 2015/2016.

Cafwyd llythyr ateb (2/9/2016) oddi wrth AON yn rhoi gwybod nid yw hasedau sefydlog yn cael eu rhestri yn unigol ond mewn grŵp.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda AON i restri ein hasedau sefydlog fel gwnaethpwyd yn y gorffennol.

dd. Bil (7/8/2016) am £1,260.00 oddi wrth Mr I.W. Thompson am dorri llwybrau cyhoeddus Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Bil (15/8/2016) am £24.50 oddi wrth Signcreation am wneud arwydd 'Dim taflu gwastraff Defnyddiwch y bin sbwriel os gwelwch yn dda - No tipping of waste Please use bin provided' i'r fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Llythyr (25/8/2016) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion o gyflog newydd y Clerc.

Taliad chwarterol i'r Clerc: £262.72.
Taliad chwarterol i Gyllid a Thollau EM: £65.60.
£328.32.
Cyfanswm: £328.32 x 4 = £1,313.28 y flwyddyn. Gweler Cofnodion Gorffennaf 12, 2016 eitem 5.a.

Nid yw 'Cofrestru awtomatig' gyda chynllun pensiwn yn berthnasol i'r Clerc gan fod ei gyflog misol o dan derfyn enillion gros. Mater codwyd gan The Pensions Regulator mewn llythyr Gorffennaf 2016.

ff. Derbyniwyd Praesept (26/08/16) am £3,250.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd.

g. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2016: £7,672.07.

h. Bil (13/9/2016) oddi wrth Janet Edwards am:
Taliad am lanhau a gofalu am doiledau cyhoeddus Bontddu am y cyfnod Ebrill, Mai a Mehefin: £210.00
Taliad am bapur toilet, bleach, disinfectant a bin liners: £25.42.
Cyfanswm: £235.42.

Penderfynwyd talu'r bil.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Derbyniwyd (20/7/2016) galwad ffôn oddi wrth Mrs Myfanwy Roberts, Bala (01678 520 139) yn dweud bod cyflwr mynedfa i'r fynwent ar gyfer Tandalar mewn cyflwr gwael. Rhoddwyd gwybod i Mr E.W. Davies i docio coeden gelyn sydd wrth y gât, sgubo'r fynedfa a rhoi chwyn laddwr i gael gwared â'r mwswgl.

b. Rhoddwyd yr arwydd 'Dim taflu gwastraff Defnyddiwch y bin sbwriel os gwelwch yn dda - No tipping of waste Please use bin provided'yn y fynwent ar 15/8/2016.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/133E. Cais i ryddhau Amodau Rhif 3,4,5 a 10 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/133D dyddiedig 22/12/2015. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

Penderfynwyd caniatáu'r cais (6/8/2016).

ii. NP5/65/274D. Trosi sgubor i dy fforddiadwy, adeiladu clwydfan slumod, a gosod tanc septig newydd. Sgubor ger Fferm Maes Mawr, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/8/2016).

iii. NP5/65/14P. Trosi ac ymestyn allandy i ffurfio llety gwyliau i'w osod a gosod tanc septig carafán statig oddi ar y safle. Bryn Du, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

b. Llythyr (20/7/2016) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri i wneud penderfyniadau ar gynllunio a datblygu yn y dyfodol. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau i roi ein barn, ac maent ei angen cyn Medi 30, 2016.

c. Llythyr (10/8/2016) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn adolygu asesiad o fannau agored. Maent yn gwneud archwiliad o'r tir a ddefnyddir ar gyfer dibenion hamdden a mwynderau cyhoeddus ac angen ein cymorth i nodi mannau agored sydd ddim yn adnabyddus. Amgau mae holiadur i'w gwblhau a map yn dangos mannau agored.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar Hydref 11 am 6.30yh i drafod eitemau b, c uchod. Penderfynwyd hefyd i roi gwybod i'r aelodau cyfeiriad yr Awdurdod i gael gwybodaeth am yr eitemau.

ch. Llythyr (25/8/2016) yn rhoi gwybod mae'r Awdurdod yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Maent eisiau adnabod tir newydd ar gyfer tai. Amgáu mae ffurflen i dirfeddianwyr i'w chwblhau a'i anfon i'r Awdurdod cyn 4/11/2016. Amgáu hefyd mae posteri i hysbysu'r broses am safleoedd; mae'r posteri wedi cael ei rhoi ar yr hysbysfyrddau'r gymuned..

d. Llythyr (30/8/2016) yn rhoi gwybod am apêl i gais cynllunio NP5/65/263C/PE/RLR. Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 02/12/2008 mewn perthynas â Caniatâd Cynllunio NP5/65/253A. Allt Fach, Bryn Du, Llanelltyd.

Penderfyniad yr apêl oedd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. E-bost (18/7/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir eu Cynhadledd ar ddydd Sadwrn, Hydref 1, 2016 am 9.30yb, ym Maes Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt. Y gost fydd £90 y pen.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer i gynrychioli ni yn y gynhadledd.

b. Llythyr (25/7/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud ar ffordd A496 - croesfan yr ysgol newydd, Llanelltyd.

c. Llythyr (29/7/2016) oddi wrth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Meirion 2016. Amgau mae rhestr o enillwyr y Raffl Fawr, a hefyd gwybodaeth am Sioe Sir Meirion bydd ar Fferm Rhug, Corwen.

ch. Llythyr (5/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mai cwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Bala ar ddydd Mercher, 30/11/2016 am 6.30yh (cwrs lleol).

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru i gael gwybod os mae'r cwrs yn Gymraeg.

f. Llythyr (6/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 21, 2016 am 7.00yh. Amgau mae'r Agenda. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o'r Parc Cenedlaethol ar amodau 106, ac adolygiad Cynllun Datblygiad Lleol.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Mae trafodaethau yn parhau ynglŷn â'r ysgolion lleol.

10. Materion Brys

a. Nid oedd gan yr aelodau gwrthwynebiad i Carwyn Evans torri coed ar ei dir.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen gwneud gwaith ar ffordd rhwng Murmur-y-Nant a Pant Llwyfog, Llanelltyd i arbed dŵr rhedeg lawr y ffordd. Mae gwreiddyn coeden yn codi wyneb y ffordd ac yn rhwystro 'r dwr rhedeg yn gywir.

c. Penderfynwyd i Peredur Jenkins a Elfed ap Gomer cyfarfod Meirion, perchennog tir, i ddatrys y broblem o uno dwy bibell draenio i'r dŵr redeg i'r gwter ac nid i'r tir, ochr ffordd islaw fferm Cwm Mynach.

ch. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r ffordd rhwng y fynwent ar hen bont Llanelltyd oherwydd mae angen tocio y gordyfiant sydd ar ochr y ffordd.

d. Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr anfonwyd i Cadw i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â chlirio tyfiant ar hen bont Llanelltyd ac ail gosod 'coping stones' sydd wedi disgyn i'r afon.

dd. Yn cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Coed y Brenin (Eitem 7.c. yn cofnodion Mehefin 14, 2016) derbyniodd Elfed ap Gomer mapiau y gymuned yn dangos tir bydd yn cael ei effeithio gan lifogydd.